Lesley Griffiths AS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

13 Tachwedd 2020

Annwyl Lesley,

**Bil Pysgodfeydd y DU**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Hydref 2020 ynghylch Bil Pysgodfeydd y DU (y Bil), a drafodwyd gennym yn ein cyfarfod ar 9 Tachwedd. Rydym yn croesawu'r ymateb llawn a roddwyd gennych i'n llythyr dyddiedig 5 Hydref.

Mae un mater yn eich llythyr yr hoffem ei drafod â chi ymhellach. Wrth ateb cwestiynau rhif 2. c) a d) yn ein llythyr dyddiedig 5 Hydref, gwnaethoch nodi:

> "Ni chafodd diwygiadau i Atodlen 3 ac 8 ac i Atodlen 10 (yn ymwneud â gofynion ymgynghori) eu cyflwyno gan i hyn gael ei ddisodli gan waith gyda Llywodraeth y DU ar ddwyn ymlaen Orchymyn o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cadarnhau i mi yn ysgrifenedig y bydd y Gorchymyn a ddaw yn ymdrin â'r swyddogaethau cydredol yn y Bil, **yn amodol ar rai eithriadau penodol** sy'n adlewyrchu cymhlethdod y gwaith o reoleiddio cychod pysgota." (Ein pwyslais ni)

Er ein bod yn croesawu'r ffaith bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cadarnhau yr ymdrinnir â'r swyddogaethau cydamserol yn y Bil mewn Gorchymyn adran 109 sydd ar ddod, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion cyn gynted â phosibl ynglŷn â'r "eithriadau penodol" y cyfeirir atynt yn eich llythyr. Os yw'n briodol gwneud hynny, byddai hefyd yn beth da, yn ein barn ni, pe bai'r ohebiaeth hon â'r Ysgrifennydd Gwladol ar gael i'r cyhoedd.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Rydym yn ymwybodol bod y Bil yn dal i symud drwy Dŷ'r Cyffredin, ac rydym yn croesawu eich ymrwymiad i ysgrifennu atom i gadarnhau canlyniad y Cyfnod Adrodd a'r Trydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.